# Templed o Dudalen We i Deuluoedd

Dyma dempled i'ch helpu i greu tudalen we i deuluoedd ar eich gwefan.

Un o'r ffyrdd hawsaf o ddangos eich bod yn amgueddfa sy'n croesawu teuluoedd yw cynnwys tudalen yn benodol i deuluoedd i'w helpu i gynllunio eu hymweliad a gadael iddyn nhw wybod bod croeso iddyn nhw ar eich safle. Dylai'r dudalen dynnu'r holl wybodaeth allweddol ar gyfer y gynulleidfa hon at ei gilydd.

Rydym yn argymell bod y dudalen hon yn ymddangos yn amlwg ar eich gwefan, naill ai drwy roi dolen ym mhrif far offer y safle neu drwy roi mynediad iddi o gwymplen.

Bydd yr union gynnwys yn dibynnu ar gynllun ac arddull eich gwefan, ond rydym yn gobeithio y bydd y strwythur a'r wybodaeth yn y templed isod yn ddefnyddiol o ran dangos i chi beth i'w gynnwys. Ystyriwch sut y byddwch yn cyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd glir, sy'n hawdd llywio drwyddi ac sy'n ddiddorol i edrych arni.

Os oes gennych fasgot i'ch amgueddfa neu ddarluniau o deuluoedd, efallai y gallech greu thema neu gynllunio'r dudalen o amgylch y cymeriadau hyn.

Dyma rai enghreifftiau defnyddiol o dudalennau gwe i deuluoedd gan amgueddfeydd i'ch ysbrydoli:

- Amgueddfa Genedlaethol y Glannau | National Waterfront Museum
- Andrew Carnegie Birthplace Museum
- London Transport Museum
- Museum of London
- The Postal Museum

## Templed o dudalen we i deuluoedd

### 1. Teitl

- Ychwanegwch deitl ar gyfer eich tudalen. Gall hyn ddibynnu lle mae eich tudalen yn eistedd ar eich gwefan, ond cadwch y teitl mor fyr a syml ag sy'n bosibl.

'Teuluoedd, I Deuluoedd neu Teuluoedd yn ymweld'

### 2. Lluniau

- Rhowch lun neu luniau o deuluoedd yn mwynhau eu hunain yn eich amgueddfa. Gwnewch yn siŵr bod eich lluniau'n cynnwys gwahanol fathau o deuluoedd ac yn cynrychioli eich cymuned leol.
- Os yw eich amgueddfa wedi llofnodi'r Maniffesto Kids in Museums, gallwch lawrlwytho ein logo Maniffesto i'w arddangos ar eich gwefan. Os yw eich amgueddfa wedi ei chynnwys ar ein rhestr fer ar gyfer ein Gwobr i Amgueddfeydd sy'n

Croesawu Teuluoedd, neu os yw wedi ennill y wobr, gallwch hefyd ddefnyddio'r logos a ddarparwn yn ystod y broses wobrwyo.

### 3. Cyflwyniad

- Ychwanegwch frawddeg fer yn esbonio pam eich bod yn lle gwych i deuluoedd neu'n egluro eich bod yn croesawu pob oedran. Rhowch grynodeb byr o'r wybodaeth am gostau mynediad, oriau agor a gwybodaeth am archebu.

'Rydym yn croesawu ymwelwyr o bob oedran i archwilio hanes Northumberland. Rydym yn agored o ddydd Mercher i Ddydd Sadwrn. Mynediad am ddim i blant! Archebwch eich tocynnau o flaen llaw.'

### 4. Amlinellwch eich rhaglen a digwyddiadau i deuluoedd

- Cynhwyswch restr fer o bwyntiau bwled yn nodi unrhyw ddigwyddiadau rheolaidd a gynhaliwch yn yr amgueddfa i blant a theuluoedd, er enghraifft grwpiau i blant dan 5 neu Glwb Archeolegwyr Ifanc. Gallech ychwanegu a dileu eitemau o'r rhestr isod fel y bo angen.
- Cynhwyswch ddolen at y digwyddiadau sydd ar waith ar y pryd 'Tudalen Be sy 'Mlaen.

'Rydym yn cynnal amrywiaeth gyffrous o ddigwyddiadau i deuluoedd drwy'r flwyddyn gron. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol
- Sesiynau chwarae yn ystod y tymor i blant dan 5 oed
- Boreau tawel i deuluoedd gydag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau
- Clwb Archeolegwyr Ifanc
- Teuluoedd yn gwirfoddoli

Gwelwch be sy 'mlaen i deuluoedd.'

### 5. Gweithgareddau i deuluoedd

- Rhannwch restr glir o'r gweithgareddau yn eich amgueddfa sy'n wych i deuluoedd, er enghraifft, ffefrynnau teuluoedd, y 10 peth gorau i'w gweld ac i'w gwneud gyda phlant, unrhyw orielau neu fannau chwarae i blant, gweithgareddau rhyngweithiol, tywyswyr teuluoedd, llwybrau neu warbaciau – a ble gall teuluoedd ddod o hyd i'r rhain. Gallech ychwanegu a dileu eitemau o'r rhestr isod fel y bo raid.
- Ychwanegwch ddolen at eich gweithgareddau i'w gwneud adref, fel gweithgareddau i'w lawrlwytho a thaflenni lliwio.

'Mae llwyth o bethau i deuluoedd eu harchwilio yn yr amgueddfa – ac o adref!

- Dewch i ymweld ag oriel y plant sydd wedi ei llunio i blant 0-8 oed

- Ewch i nôl gwarbac i deuluoedd o'r Ddesg Groesawu i'ch helpu i archwilio'r amgueddfa
- Cadwch lygad yn agored am labelau plant sy'n dangos masgot ein hamgueddfa
- Ewch ar ein llwybrau gyda thema i deuluoedd sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd

Ydych chi'n methu dod i'r amgueddfa heddiw? Gwelwch ein hadnoddau i'w mwynhau adref, yn cynnwys gêm ar-lein, taflenni lliwio i'w lawrlwytho a fideos crefftau.'

## 6. Cyfleusterau i deuluoedd

- Rhannwch restr glir o'r cyfleusterau ymarferol y mae eich amgueddfa'n eu cynnig i deuluoedd. Gallech ddefnyddio'r rhestr isod gan ddileu eitemau amherthnasol.
- Ychwanegwch ddolen i'ch tudalen hygyrchedd, i deuluoedd sydd angen rhagor o wybodaeth.

'Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau ymarferol i'ch helpu i fwynhau ymweliad sydd mor gyfforddus â phosib.

- Rydym yn croesawu bwydo ar y fron
- Digon o le i gadeiriau gwthio/bygis neu le arbennig i adael bygis
- Mynediad i gadeiriau olwyn
- Caffi gyda chadeiriau uchel, bwydlen i blant a thaflenni lliwio
- Lle picnic
- Man Tawel
- Toiledau hygyrch
- Stepiau codi
- Newid babanod
- Cypyrddau bach neu ystafell gotiau
- Siop gydag eitemau arian poced
- Ail lenwi poteli dŵr o'r tap am ddim
- Cyflenwadau am ddim o gewynnau, weips a nwyddau mislif

I ganfod rhagor am hygyrchedd, gwelwch ein tudalen Hygyrchedd.'

## 7. Cadwch mewn cysylltiad

- Rhowch ddolen at eich tudalen gofrestru ar gyfer y cylchlythyr i deuluoedd, er mwyn annog teuluoedd i glywed am unrhyw weithgareddau yn y dyfodol.
- Cynhwyswch ddolen at eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Efallai y gallech wahodd teuluoedd sy'n ymweld i rannu eu lluniau drwy gynnwys eich dolen neu hashnod.

## 8. Elfennau ychwanegol opsiynol

- Ychwanegwch adolygiadau cadarnhaol gan deuluoedd sydd ar TripAdvisor neu ar y cyfryngau cymdeithasol.

- Ychwanegwch adran gwestiynau cyffredin i deuluoedd. A oes unrhyw beth yn arbennig am eich safle chi y mae gan deuluoedd gwestiynau amdanynt yn aml, neu sydd werth tynnu sylw atynt? Mae hwn yn gyfle da i fynd i'r afael â phryderon am y pethau y gallent ac na allent eu gwneud yn yr amgueddfa, er enghraifft a oes caniatâd i dynnu llun neu dedenda ffyn hun-lun yn yr amgueddfa?
- Ychwanegwch ddolen i gael cip ymlaen llaw ar eitemau addas i deuluoedd neu blant yn eich siop.